



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 188 (Cy. 62)

2022 No. 188 (W. 62)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau
Corfforedig (Swyddogaethau
Trafnidiaeth) (Addasiadau
Canlyniadol a Darpariaethau
Trosiannol) (Cymru) 2022

The Corporate Joint Committees
(Transport Functions)
(Consequential Modifications and
Transitional Provisions) (Wales)
Regulations 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny yng Nghymru a bennir yn y Rheoliadau sy'n eu sefydlu. Caniateir iddynt arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) swyddogaethau penodedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o ran trafndiaeth.

Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1) confers power on the Welsh Ministers to establish corporate joint committees. Corporate joint committees are bodies corporate consisting of such county councils and county borough councils in Wales as are specified in the Regulations establishing them. They may exercise the functions specified in those Regulations, including (among other things) specified functions of a county or county borough council relating to transport.

Mae swyddogaethau o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 wedi eu rhoi i bedwar cyd-bwyllgor corfforedig ar wahân o dan y Rheoliadau a ganlyn a wnaed o dan adrannau 74, 83 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021—

Functions under section 108 of the Transport Act 2000 have been conferred on four separate corporate joint committees under the following Regulations made under sections 74, 83 and 174 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021—

- (a) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Deddwyrain (Cymru) 2021 (O.S. 2021/343) (Cy. 97);
- (b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 (O.S. 2021/352) (Cy. 104);
- (c) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021 (O.S. 2021/342) (Cy. 96);

- (a) The South East Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 (S.I. 2021/343 (W. 97));
- (b) The South West Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 (S.I. 2021/352 (W. 104));
- (c) The Mid Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 (S.I. 2021/342 (W. 96));

(d) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 (O.S. 2021/339) (Cy. 93).

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 (“Rheoliadau 2021”), sy’n dod i rym ar yr un diwrnod â’r Rheoliadau hyn, yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn achosion pan fo cyd-bwyllgor corfforedig wedi ei sefydlu drwy Reoliadau a’r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi ei rhoi i’r cyd-bwyllgor corfforedig. Mae’r addasiadau’n ei gwneud yn ofynnol i’r cyd-bwyllgor corfforedig ddatblygu polisiau trafndiaeth a sefydlu cynllun trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i’r addasiadau i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 a wneir gan Reoliadau 2021.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth i gadw polisiau trafndiaeth presennol a luniwyd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol hyd nes y bydd cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol mewn grym mewn perthynas â’u hardaloedd.

Mae rheoliad 5 yn dirymu Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

(d) The North Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021 (S.I. 2021/339 (W. 93)).

The Corporate Joint Committees (Transport Functions) (Wales) Regulations 2021 (“the 2021 Regulations”), which come into force on the same day as these Regulations, modify the Transport Act 2000 in cases where a corporate joint committee has been established by Regulations and the function of developing policies under section 108 of the 2000 Act has been conferred on the corporate joint committee. The modifications require the corporate joint committee to develop transport policies and establish a regional transport plan for its area.

These Regulations are made by the Welsh Ministers under section 173 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. They make amendments to primary and secondary legislation consequent to the modifications to the Transport Act 2000 made by the 2021 Regulations.

Regulation 4 makes provision to preserve existing transport policies prepared by county and county borough councils until such time as regional transport plans are in force in relation to their areas.

Regulation 5 revokes the Regional Transport Planning (Wales) Order 2014.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2022 Rhif 188 (Cy. 62)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau
Corfforedig (Swyddogaethau
Trafnidiaeth) (Addasiadau
Canlyniadol a Darpariaethau
Trosiannol) (Cymru) 2022

Gwnaed 25 Chwefror 2022

Yn dod i rym 28 Chwefror 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn unol ag adran 174(4) a (5)(t) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Chwefror 2022.

2022 No. 188 (W. 62)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Corporate Joint Committees
(Transport Functions)
(Consequential Modifications and
Transitional Provisions) (Wales)
Regulations 2022

Made 25 February 2022

Coming into force 28 February 2022

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 173 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021(1), make the following Regulations.

A draft of these Regulations has been approved by a resolution of Senedd Cymru in accordance with section 174(4) and (5)(t) of that Act.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Corporate Joint Committees (Transport Functions) (Consequential Modifications and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 28 February 2022.

(1) 2021 dsc 1.

(1) 2021 asc 1.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “awdurdod trafndiaeth lleol” (“*local transport authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr “cyd-bwyllgor corfforedig” (“*corporate joint committee*”) yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan Reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

ystyr “cyngor cyfansoddol” (“*constituent council*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, y mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig mewn cysylltiad â’i ardal;

ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Trafnidiaeth 2000(1).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth “addasedig” o Ddeddf 2000 yn gyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y’i haddaswyd gan yr Atodlen i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021(2).

Addasiadau i ddeddfwriaeth

3. Pan fo’r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf 2000 mewn cysylltiad ag ardal awdurdod trafndiaeth lleol wedi ei rhoi i gyd-bwyllgor corfforedig, mae’r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlen yn gymwys yn ddarostyngedig i’r addasiadau a nodir yn yr Atodlen.

Darpariaeth drosiannol

4.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo’r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf 2000 mewn cysylltiad ag ardal awdurdod trafndiaeth lleol wedi ei rhoi i gyd-bwyllgor corfforedig.

(2) Mae unrhyw bolisiau a ddatblygir gan gyngor cyfansoddol o dan adran 108(1)(a) o Ddeddf 2000 i’w trin fel pe baent yn bolisiau wedi eu datblygu gan y cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 108(1) addasedig o Ddeddf 2000 mewn cysylltiad â’r rhan honno o ardal y cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi ei chyfansoddi o ardal y cyngor cyfansoddol.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“the 2000 Act” (“*Deddf 2000*”) means the Transport Act 2000(1);

“constituent council” (“*cyngor cyfansoddol*”) means a council for a county or county borough council in Wales, in respect of whose area the Welsh Ministers have established a corporate joint committee;

“corporate joint committee” (“*cyd-bwyllgor corfforedig*”) means a corporate joint committee established by Regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;

“local transport authority” (“*awdurdod trafndiaeth lleol*”) means a county council or county borough council.

(2) For the purposes of these Regulations, any reference to a “modified” provision of the 2000 Act is a reference to that provision as modified by the Schedule to the Corporate Joint Committees (Transport Functions) (Wales) Regulations 2021(2).

Modifications to legislation

3. Where the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the 2000 Act in respect of the area of a local transport authority is conferred on a corporate joint committee, the legislation referred to in the Schedule applies subject to the modifications set out in the Schedule.

Transitional provision

4.—(1) This regulation applies where the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the 2000 Act in respect of the area of a local transport authority is conferred on a corporate joint committee.

(2) Any policies developed by a constituent council under section 108(1)(a) of the 2000 Act are to be treated as if they were policies developed by the corporate joint committee under modified section 108(1) of the 2000 Act in respect of that part of the corporate joint committee’s area as is constituted by the area of the constituent council.

(1) 2000 p. 38.

(2) O.S. 2021/328 (Cy. 86).

(1) 2000 c. 38.

(2) S.I. 2021/328 (W. 86).

(3) Mae paragraff (2) yn peidio â bod yn gymwys pan fo'r cyd-bwyllgor corfforedig yn datblygu polisiau mewn cysylltiad â'r rhan honno o'i ardal o dan adran 108(1) addasedig o Ddeddf 2000.

(4) Mae unrhyw bolisiau a ddatblygir gan gyngor cyfansoddol o dan adran 108(2A) o Ddeddf 2000 i'w trin fel pe baent yn bolisiau wedi eu datblygu gan y cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 108(2A) addasedig mewn cysylltiad â'r rhan honno o ardal y cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi ei chyfansoddi o ardal y cyngor cyfansoddol.

(5) Mae paragraff (4) yn peidio â bod yn gymwys pan fo'r cyd-bwyllgor corfforedig yn datblygu polisiau mewn cysylltiad â'r rhan honno o'i ardal o dan adran 108(2A) addasedig.

(6) Mae cynllun trafndiaeth lleol a gyflwynir gan gyngor cyfansoddol ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan adran 109A o Ddeddf 2000 i'w drin fel pe bai'n gynllun trafndiaeth rhanbarthol wedi ei gyflwyno gan gyd-bwyllgor corfforedig a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 109A addasedig mewn cysylltiad â'r rhan honno o ardal y cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi ei chyfansoddi o ardal y cyngor cyfansoddol.

(7) Mae paragraff (6) yn peidio â bod yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynllun trafndiaeth rhanbarthol y cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 109A addasedig.

Dirymu Gorchymyn Cynllunio Trafndiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014

5. Mae Gorchymyn Cynllunio Trafndiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014(1) wedi ei ddirymu.

(3) Paragraph (2) ceases to apply when the corporate joint committee develops policies in respect of that part of its area under modified section 108(1) of the 2000 Act.

(4) Any policies developed by a constituent council under section 108(2A) of the 2000 Act are to be treated as if they were policies developed by the corporate joint committee under modified section 108(2A) in respect of that part of the corporate joint committee's area as is constituted by the area of the constituent council.

(5) Paragraph (4) ceases to apply when the corporate joint committee develops policies in respect of that part of its area under modified section 108(2A).

(6) A local transport plan submitted by a constituent council and approved by the Welsh Ministers under section 109A of the 2000 Act is to be treated as if it were a regional transport plan submitted by a corporate joint committee and approved by the Welsh Ministers under modified section 109A in respect of that part of the corporate joint committee's area as is constituted by the area of the constituent council.

(7) Paragraph (6) ceases to apply when the Welsh Ministers approve the corporate joint committee's regional transport plan under modified section 109A.

Revocation of the Regional Transport Planning (Wales) Order 2014

5. The Regional Transport Planning (Wales) Order 2014(1) is revoked.

Lee Waters

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
25 Chwefror 2022

Deputy Minister for Climate Change, acting under authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers
25 February 2022

Addasiadau i ddeddfwriaeth

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

1. Mae rheoliad 13 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005(1) i'w ddarllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff (1), y canlynol wedi ei roi yn lle is-baragraffau (a) a (b)—

“(a) unrhyw gynllun trafndiaeth rhanbarthol a baratowyd o dan adran 108(3A) o Ddeddf Trafndiaeth 2000 (fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafndiaeth) (Cymru) 2021), y mae ei bolisïau'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLL;

(b) unrhyw bolisïau eraill a baratowyd o dan adran 108(1) a (2A) o Ddeddf Trafndiaeth 2000 (fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafndiaeth) (Cymru) 2021) sy'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLL;”;

- (b) paragraff (3) wedi ei hepgor.

Deddf Trafndiaeth (Cymru) 2006

2. Mae Deddf Trafndiaeth (Cymru) 2006(2) i'w darllen fel pe bai—

- (a) yn adran 2 (Strategaeth Drafndiaeth Cymru), yn is-adran (5), y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)—

“(aa) each corporate joint committee upon whom the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000 has been conferred;”;

- (b) yn adran 14 (dehongli), y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (3)—

“(4) “Corporate joint committee” means a corporate joint committee established by Regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.”

Modifications to legislation

The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005

1. Regulation 13 of the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005(1) is to be read as if—

- (a) in paragraph (1), for sub-paragraphs (a) and (b) there were substituted—

“(a) any regional transport plan prepared under section 108(3A) of the Transport Act 2000 (as modified by the Corporate Joint Committees (Transport Functions) (Wales) Regulations 2021), the policies of which affect any part of the LPA's area;

(b) any other policies prepared under section 108(1) and (2A) of the Transport Act 2000 (as modified by the Corporate Joint Committees (Transport Functions) (Wales) Regulations 2021) which affect any part of the LPA's area;”;

- (b) paragraph (3) were omitted.

Transport (Wales) Act 2006

2. The Transport (Wales) Act 2006(2) is to be read as if—

- (a) in section 2 (Wales Transport Strategy), in subsection (5), after paragraph (a), there were inserted—

“(aa) each corporate joint committee upon whom the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000 has been conferred;”;

- (b) in section 14 (interpretation), after subsection (3), there were inserted—

“(4) “Corporate joint committee” means a corporate joint committee established by Regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.”

(1) O.S. 2005/2839 (Cy. 203).

(2) 2006 p. 5.

(1) S.I. 2005/2839 (W. 203).

(2) 2006 c. 5.

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007

3. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(1) i'w darllen fel pe bai, yn y tabl yn Atodlen 3, y cofnod sy'n ymwneud â Chynllun Trafnidiaeth Lleol wedi ei hepgor.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

4. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013(2) i'w darllen fel pe bai—

- (a) y canlynol wedi ei roi yn lle adran 6 (datblygu polisiau trafndiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig)—

“6 Datblygu polisiau trafndiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig

Rhaid i bob cyd-bwyllgor corfforedig y mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (polisiau sy'n sail i gynlluniau trafndiaeth rhanbarthol) wedi ei rhoi iddo, wrth ddatblygu'r polisiau hynny, roi sylw i'r map rhwydwaith integredig ar gyfer ei ardal.”;

- (b) yn adran 13, y canlynol wedi ei fewnosod yn y lle priodol—

“ystyr “cyd-bwyllgor corfforedig” (“*corporate joint committee*”) yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan Reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;”.

The Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007

3. The Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007(1) are to be read as if, in the table in Schedule 3, the entry relating to a Local Transport Plan were omitted.

Active Travel (Wales) Act 2013

4. The Active Travel (Wales) Act 2013(2) is to be read as if—

- (a) for section 6 (developing transport policies with regard to integrated network map), there were substituted—

“6 Developing transport policies with regard to integrated network map

Each corporate joint committee upon whom the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of the Transport Act 2000 (policies forming basis of regional transport plans) has been conferred must, in developing those policies, have regard to the integrated network map for its area.”;

- (b) in section 13, in the appropriate place, there were inserted—

““corporate joint committee” (“*cyd-bwyllgor corfforedig*”) means a corporate joint committee established by Regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;”.

©© Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.


(1) O.S. 2007/399 (Cy. 45).
(2) 2013 dccc 7.

(1) S.I. 2007/399 (W. 45).
(2) 2013 anaw 7.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/188>

ISBN 978-0-348-39256-2



9 780348 392562